


Mesurau perfformiad cyson ar gyfer dysgu ôl-16: Cyflawniad, Awst 2018 i Orffennaf 2019 (ystadegau arbrolfol)

27 Chwefror 2020
SFR 12/2020

Crynodeb o fesurau cwblhau a chyflawni, 2018/19



Prif bwyntiau

- Cafodd 9% o'r dysgwyr amser llawn a gychwynnodd AS ym mlwyddyn academiaidd 2017/18 yr hyn sy'n cyfateb i dri safon uwch ar A* i A yn 2018/19.
- Cafodd 42% o leiaf tri A* i C.
- Pasiodd 65% yr hyn sy'n cyfateb i dri lefel A neu fwy (graddau A* i E).
- Cyflawnwyd 80% o'r prif gymwysterau galwedigaethol yn llwyddiannus.
- Fe wnaeth hanner y dysgwyr ar Fagloriaeth Cymru Uwch basio. (50%).
- Roedd anghydraddoldebau mawr o ran canlyniadau i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Roedd dysgwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig dros dair gwaith yn fwy tebygol o gael tri neu A*, o gymharu â dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o gyflawni mewn rhaglenni addysg gyffredinol. Nid oedd bwlch rhwng y rhywiau yn y cyfraddau llwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol.

Ynglŷn â'r datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn rhan o gyfres o dri Mesur perfformiad cyson ar gyfer colegau a dosbarthiadau chwech.

Y mesurau yw: [Cyflawniad](#), Gwerth a Ychwanegir, a [Chyrchfannau](#).

Dylid deall canlyniadau ar gyfer dysgwyr yng nghydestun pob un o'r tri Mesur.

Ffynonellau:

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR),

Casgliad Data Ôl-16,

Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED).

Yn y datganiad hwn

Cyflwyniad	2
Rhaglenni Addysg Gyffredinol	3
Rhaglenni	
Galwedigaethol	5
Bagloriaeth Cymru	8
Rhyw	11
Oedran	13
Difreintiedigaeth	14
Darparwyr	16
Geirfa	19
Nodiadau	20
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	23

1. Cyflwyniad

Statws ystadegau arbrol

Nodir yr ystadegau hyn fel rhai arbrol, oherwydd maen nhw'n parhau i gael eu datblygu. Ychwanegwyd ysgolion at y mesurau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol am y tro cyntaf eleni.

Cyhoeddwyd y mesurau cyflawniad am y tro cyntaf gan gwmpasu'r cyfnod rhwng Awst 2016 a Mehefin 2017. Nid ydym yn eich cynghori i gymharu 2016/17 â blynyddoedd diweddarach, oherwydd cafodd nifer o ddarparwyr eu heithrio yn y flwyddyn gyntaf oherwydd problemau'n ymwneud ag ansawdd data.

Mae ansawdd y data wedi gwella ers hynny, ac mae pob chweched dosbarth a choleg addysg bellach wedi'u cynnwys ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Gellir cymharu'r ddwy flwyddyn hyn, gan mai mân iawn fu'r newidiadau mewn methodoleg.

Mae rhagor o wybodaeth yn yr adran Nodiadau ynghylch pam fod yr ystadegau hyn yn rhai arbrol.

Mesurau cyson

Mae'r mesurau perfformiad cyson yn cyfuno data o golegau a dosbarthiadau chweched dosbarth mewn ysgolion. Yn y gorffennol, roedd yna fesurau ar wahân o ganlyniadau dysgwyr ar gyfer pob un, er eu bod yn darparu nifer o'r un rhaglenni dysgu.

Dyma'r mesurau perfformiad cyson:

- Cyflawniad – niferoedd cwblhau, cadw a chyflawniad dysgwyr sy'n dilyn rhaglenni Safon Uwch, galwedigaethol a Bagloriaeth Cymru
- Gwerth ychwanegol - y cynnydd y mae dysgwyr wedi'i wneud uwchlaw'r hyn a fyddai'n ddisgwyliedig fel arfer yn seiliedig ar eu cyrhaeddiad blaenorol a'u rhywedd
- Cyrchfannau – cyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyflogaeth a/neu addysg bellach (yn cynnwys addysg uwch).

Nod y mesurau yw sicrhau cysondeb rhwng colegau a dosbarthiadau chweched dosbarth. Fodd bynnag, ni ellir osgoi mân wahaniaethau oherwydd bod data colegau ac ysgolion yn dod o ffynonellau ar wahân.

Unigolion sy'n gadael yn gynnar

Mae dysgwyr sy'n newid eu rhaglen ddysgu neu dynnu'n ôl ohoni yn ystod yr 8 wythnos gyntaf yn cael eu cyfrif fel unigolion sy'n gadael yn gynnar. Nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y prif fesurau o ran cyflawniad.

Darparwyr

Mae canlyniadau 'da' dysgwyr yn mynd i olygu rhywbeth gwahanol i golegau a dosbarthiadau chweched dosbarth penodol. Darperir addysg ôl-16 mewn ffyrdd amrywiol ledled Cymru. Mae gan y darparwyr ddysgwyr gyda chymysgedd wahanol o gefndiroedd a lefelau gwahanol o gyflawniad blaenorol.

Dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion


Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â dysgu oedolion, prentisiaethau neu fathau eraill o ddysgu seiliedig ar waith. Mae'r ystadegau ar gyfer y rhain yn Canlyniadau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion.

2. Rhaglenni Addysg Gyffredinol

Mae'r mesurau hyn yn cynnwys dysgwyr a ddechreuodd astudio rhaglen o dri Safon UG neu ragor (neu gyfwerth) yn eu blwyddyn gyntaf, ac yn edrych ar faint a gyflawnodd o leiaf dri safon uwch (neu gyfwerth) erbyn diwedd eu hail flwyddyn.

Gall rhaglenni addysg gyffredinol gynnwys dysgwyr sy'n gwneud cymwysterau galwedigaethol ar draws sawl maes pwnc.

Siart 2.1: Cyfres amser o fesurau cyrhaeddiad dwy flynedd addysg gyffredinol (a)




a) Ni ddylid cymharu 2016/17 a blynyddoedd dilynol gan y dilëwyd rhai darparwyr yn 2016/17 oherwydd materion ansawdd data.

Cafwyd cynnydd yn y cyflawniad ar gyfer rhaglenni addysg gyffredinol yn 2018/19, ar wahân i nifer y dysgwyr a derbyniodd tair safon uwch A neu A*.

Gwellodd y gyfradd gwblhau ar gyfer rhaglenni safon uwch gan 3 phwynt canran dros y flwyddyn flaenorol. Y cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cwblhau eu lefelau A yw'r rheswm pam y cafodd mwy o ddysgwyr dair safon uwch A* i E ac A* i C.

Siart 2.2: Mesurau cyflawniad dwy flynedd ar gyfer rhaglenni addysg gyffredinol, 2018/19




3. Rhaglenni galwedigaethol


Mae'r mesurau hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n astudio rhaglenni sydd â chymwysterau galwedigaethol yn bennaf mewn sector neu faes pwnc penodol. Mae gan y cymwysterau hyn wahanol hyd, felly dim ond dros flwyddyn y mae'r mesurau galwedigaethol yn edrych ar gyflawniad. Mesurir llwyddiant ar gyfer rhaglenni galwedigaethol fel canran y prif gymwysterau a astudiwyd a oedd yn llwyddiannus.

Mae ysgolion wedi cael eu cynnwys yn y mesurau rhaglen alwedigaethol am y tro cyntaf eleni. Mae effaith ysgolion ar y mesurau cyffredinol yn fach. Roedd 1% o'r dysgwyr ar raglenni galwedigaethol mewn ysgol yn 2018/19. 29 chweched dosbarth ysgolion yn cynnig rhaglenni galwedigaethol, o'i gymharu â 139 yn cynnig rhaglenni addysg gyffredinol.

Siart 3.1: Mesurau cwblhau ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, 2018/19




Siart 3.2: Cyfradd lwyddo'r prif gymwysterau a ddilynir gan ddysgwyr mewn rhaglenni galwedigaethol, 2018/19



Cyflawnwyd 80% o'r prif gymwysterau ar gyfer rhaglen alwedigaethol yn llwyddiannus. Roedd y gyfradd gwblhau a'r gyfradd lwyddo yn uwch ar gyfer rhaglenni galwedigaethol na rhaglenni addysg gyffredinol. Fodd bynnag, mae rhaglenni addysg gyffredinol yn cael eu mesur dros ddwy

flynedd, yn hytrach nag un. Roedd nifer y ymadawiadau cynnar yn llawer uwch ar gyfer rhaglenni galwedigaethol.


Siart 3.3: Cyfradd llwyddiant yn ôl lefel cymhwyster ar gyfer rhaglenni galwedigaethol, 2018/19



Roedd y gyfradd lwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn gyson ar draws lefelau cymhwyster. Ar gyfer rhaglenni galwedigaethol o lefel mynediad hyd at lefel 3, roedd y cyfraddau llwyddiant yn amrywio rhwng 78% a 81%.

Yr eithriad oedd rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch, a oedd â chyfradd llwyddiant o 76%. Cynlluniwyd rhaglenni mynediad i baratoi pobl heb gymwysterau traddodiadol ar gyfer astudio yn y brifysgol.

Siart 3.4: Cyfres amser o gyfradd llwyddiant ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn ôl lefel cymhwyster ar gyfer colegau (a) (b)



a) Cafodd Sgiliau Byw'n annibynnol eu heithrio yn 2018/19. Maent yn gymwysterau lefel mynediad.

b) Dangosir data colegau i fod yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

Gostyngodd y gyfradd lwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol mewn colegau ychydig yn 2018/19. Gostyngodd y cyfraddau llwyddo ar gyfer rhaglenni Lefel 1 a Lefel 3 o 1 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol. Nid oedd newid yn y gyfradd lwyddo ar gyfer rhaglenni Lefel 2, sef 79%.

Roedd y gostyngiad mewn cyfraddau llwyddiant ar gyfer rhaglenni lefel mynediad yn ganlyniad i ddileu sgiliau byw'n annibynnol o'r mesurau. Fe'u gwaharddwyd fel rhan o'r bwloch tair blynedd, y cytunwyd arno gyda'r colegau, er mwyn rhoi amser i Lywodraeth Cymru ystyried cyfres newydd o fesurau perfformiad ar gyfer y maes sgiliau byw'n annibynnol wrth i'r cwricwlwm gael ei ddiwygio. Sgiliau Byw'n Annibynnol oedd 35% o gymwysterau Lefel Mynediad yn 2017/18, ac roedd ganddynt gyfradd llwyddiant uchel.

Gwelwyd y gostyngiad mwyaf o ran cymwysterau Mynediad i Addysg Uwch, gan fynd o gyfradd llwyddiant o 79% yn 2017/18 i 76% yn 2018/19.

4. Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster i Gymru'n unig, sydd wedi'i gynllunio i'w astudio fel rhan o raglenni addysg gyffredinol neu alwedigaethol. Ei nod yw datblygu sgiliau sy'n ddefnyddiol ar gyfer addysg a chyflogaeth ac fe'i astudir ar y cyd ag addysg gyffredinol a chymwysterau galwedigaethol.


Mae tair lefel i Bagloriaeth Cymru. Mae bron pob dysgwr ôl-16 yn astudio'r lefel uchaf, Bagloriaeth Cymru Uwch, Lefel 3.

Mae gan Bagloriaeth Cymru Lefel 3 sawl rhan:

- Y Dystysgrif Her Sgiliau – cymhwyster graddedig yw hwn, sy'n cyfateb i gymhwyster Safon Uwch
- TGAU mewn Mathemateg-Rhifedd a Saesneg neu Gymraeg iaith
- Safon Uwch neu gymwysterau galwedigaethol ategol

Mae angen i ddysgwyr gyflawni pob un o'r rhain i gael Bagloriaeth Cymru yn gyffredinol, er bod y Dystysgrif Her Sgiliau hefyd yn gymhwyster annibynnol.


Siart 4.1: Cyfres amser o fesurau cyflawniad Bagloriaeth Cymru Uwch (a)



a) Cyflwynwyd mesurau cyflawniad ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn 2017/18.


Fe wnaeth hanner y bobl a wnaeth Bagloriaeth Cymru Lefel 3 ei phasio yn 2018/19. Fodd bynnag, mae'r mesurau cyflawniad i gyd wedi gwella. Pasiodd 50% o'r dysgwyr yn 2018/19, o gymharu â 47% y flwyddyn cyn hynny.

Siart 4.2: Mesurau Cyflawniad Bagloriaeth Cymru Uwch, 2018/19




Ni wnaeth 1 o bob 3 dysgwr a gychwynnodd Bagloriaeth Cymru gwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau. O'r 11,170 a basiodd y dystysgrif her sgiliau, ni chafodd 1,675 arall Fagloriaeth Cymru. Y rheswm am hyn yw na wnaethant lwyddo i gwblhau'r cydrannau eraill.

Siart 4.3: Mesurau cyflawniad yn ôl y math o raglen dysgwr ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch, 2018/19



Roedd dysgwyr a oedd yn astudio rhaglenni galwedigaethol yn llai tebygol o gyflawni Bagloriaeth Cymru. Roedd y gyfradd lwyddo ar gyfer dysgwyr ar raglenni galwedigaethol 24 pwynt canran yn is na dysgwyr ar raglenni addysg gyffredinol (32% o gymharu â 56%). Llwyddodd llai nag 1% o ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol i gael gradd A neu A* yn y Dystysgrif Her Sgiliau. Roedd 26% o ddysgwyr Bagloriaeth Cymru yn ddysgwyr ar raglenni galwedigaethol ar ôl 8 wythnos.


Siart 4.4: Cyfraddau pasio ar gyfer Bagloriaeth Cymru Uwch yn ôl oedran a math o raglen, 2018/19 (a)



Po hynaf y dysgwr, y lleiaf tebygol oeddent o basio Bagloriaeth Cymru. Bu i lai na 10% o ddysgwyr dros 19 oed yn pasio Bagloriaeth Cymru. Mae dysgwyr ar raglenni galwedigaethol yn hŷn yn aml, ond nid yw oedran yn ddigon i esbonio'r rhan fwyaf o'r gwahaniaeth rhwng addysg gyffredinol a chyfraddau pasio galwedigaethol. Roedd dysgwyr galwedigaethol 16 oed yn dal i fod 17 pwynt canran yn llai tebygol o basio eu Bagloriaeth Cymru.

5. Rhyw


Siart 5.1: Mesurau cyflawniad yn ôl rhyw, 2018/19



Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o gyflawni mewn rhaglenni addysg gyffredinol. Pasiodd 68% o ferched dair Safon Uwch (A *-E), o gymharu â 61% o fechgyn.

Nid oedd bwlch rhwng y rhywiau o ran cyflawni rhaglenni galwedigaethol. Roedd bechgyn yr un mor debygol o lwyddo â merched.


Siart 5.2: Addysg gyffredinol dilyniant yn ôl rhyw, 2018/19



Mae rhywfaint o'r bwlch rhwng y rhywiau mewn addysg gyffredinol yn deillio o'r ffaith fod merched yn fwy tebygol o barhau i A2 ar ôl eu Safon UG. Y gyfradd gadw A2 ar gyfer merched oedd 84%, o'i gymharu â 78% ar gyfer bechgyn. Roedd y bechgyn a wnaeth barhau yr un mor debygol o gwblhau eu A2 â'r merched.


Mae hyn yn esbonio rhywfaint o'r bwlch o ran cyflawniad, ond nid yr holl fwllch. Roedd merched yn dal yn fwy tebygol o gael tair Safon Uwch, ac ar radd uwch, hyd yn oed gan ystyried y gyfradd gadw wrth gyfrifo.

Siart 5.3: Mesurau cyflawniad Bagloriaeth Cymru yn ôl rhyw a math o raglen, 2018/19



Mae Bagloriaeth Cymru yn dilyn yr un patrwm â'r mesurau cyflawniad, lle'r oedd bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer y rhai sy'n astudio rhaglenni addysg gyffredinol, ond nid ar gyfer y rhai sy'n astudio rhaglenni galwedigaethol. Mae hyn er mai'r un cymhwyster yw Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr sy'n astudio'r naill fath o raglen.


Siart 5.4: Bwlch rhwng y rhywiau mewn mesurau cyflawniad ar gyfer ysgolion a cholegau, 2018/19



Roedd y bwlch rhwng y rhywiau yn llai mewn colegau nag yn y chweched dosbarth mewn ysgolion, a hynny ar gyfer pob math o ddysgu. Nid oedd bwlch rhwng y rhywiau mewn colegau o ran dysgwyr yn cael tair A* neu A yn eu Safon Uwch, ac roedd bechgyn yn perfformio'n well na merched mewn rhaglenni galwedigaethol. Mae cymysgedd gwahanol o ddysgwyr mewn colegau, a allai fod yn rheswm dros y gwahaniaeth.

6. Oedran


Siart 6.1: Mesurau cyflawniad rhaglenni addysg gyffredinol yn ôl oedran, 2018/19 (a)



Mewn rhaglenni addysg gyffredinol, roedd gan ddysgwyr hŷn gyfraddau cyflawniad is. Roedd dysgwyr 19 oed neu'n hŷn hanner yn fwy tebygol o gwblhau eu rhaglenni o'u cymharu â rhai 16 oed.

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yng Nghymru yn dechrau ar eu safon uwch yn 16 oed. Gall dysgwyr hŷn fod wedi dilyn llwybr addysg llai traddodiadol, neu efallai y byddan nhw'n ail-gymryd safon uwch.

Siart 6.2: Mesurau cyflawniad rhaglenni galwedigaethol yn ôl oedran, 2018/19



Roedd llai o berthynas rhwng oedran a chyflawniad mewn rhaglenni galwedigaethol. Roedd gan y dysgwyr a gymerodd rhaglenni galwedigaethol yn 16 oed y cyfraddau llwyddiant uchaf, ac roedd gan ddysgwyr a oedd yn dechrau yn ystod y blynyddoedd yn union ar ôl 16 gyfraddau llwyddo is, ond roedd cyfraddau llwyddo dros 19 oed yn eithaf sefydlog.

Yr eithriad i hyn yw cymwysterau Mynediad i Addysg Uwch, lle mae cyfraddau llwyddiant yn cynyddu gydag oedran, gan gyrraedd 79% ar gyfer dysgwyr rhwng 25 a 49 oed.


7. Difreintiedigaeth

Mae'r adran hon yn dangos yr anghydraddoldeb mewn deilliannau dysgu rhwng dysgwyr mewn ardaloedd difreintiedig a llai difreintiedig. Nid yw'n golygu o reidrwydd bod difreintiedigaeth yn peri i ddysgwr gyflawni llai. Er enghraifft, efallai fod gwahaniaethau yn y math o addysg ôl-16 a gynigir yn yr awdurdodau lleol lle ceir llawer o ardaloedd difreintiedig.

Mae difreintiedigaeth yn y datganiad hwn yn seiliedig ar ddifreintiedigaeth yr ardal fach y mae dysgwr yn byw ynddi. Nid yw'n seiliedig ar ddifreintiedigaeth y dysgwr penodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt yn ddifreintiedig yn byw mewn ardaloedd difreintiedig ac fel arall.

Y mesur o ddifreintiedigaeth yw prif fynegai Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.

Siart 7.1: Mesurau cyflawniad addysg gyffredinol yn ôl difreintiedigaeth cymdogaeth cartref y dysgwr, 2018/19




1 = y 10% mwyaf difreintiedig o gymdogaethau, 10 = lleiaf difreintiedig

Roedd deilliannau addysg gyffredinol yn waeth i ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig. Cafodd 15% o'r dysgwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig dri A* neu A. Dim ond 5% o ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig wnaeth hynny.

Roedd yr effaith hon ar ei mwyaf gweladwy i ddysgwyr a gafodd o leiaf dri C yn eu Safon Uwch. Roedd bwlch o 25 pwynt canran rhwng cyflawniad dysgwyr o'r cymdogaethau mwyaf a lleiaf difreintiedig. Ar gyfer pob cant o ddysgwyr o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig, cyflawnodd 56 o bobl o leiaf dri C. I bob cant o ddysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig, dim ond 31 o bobl a wnaeth.


Siart 7.2: Cyfraddau llwyddiant rhaglenni galwedigaethol yn ôl yr difreintiedigaeth cymdogaeth cartref y dysgwr a lefel, 2018/19



Roedd cysylltiad rhwng difreintiedigaeth a chyfraddau llwyddiant galwedigaethol, ond nid oedd y cysylltiad mor gryf ag addysg gyffredinol. Cyflawnodd 77% o'r dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig eu cymwysterau galwedigaethol, o'i gymharu â 85% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Roedd y patrwm hwn yn wir ar draws gwahanol lefelau'r rhaglen alwedigaethol, ac eithrio lefel mynediad lle'r oedd cyfraddau llwyddiant isel gan rai o'r cymdogaethau llai difreintiedig. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â pha ddysgwyr oedd yn cymryd rhaglenni lefel mynediad yn y lle cyntaf. Roedd dysgwyr o ardaloedd llai difreintiedig yn cynnwys cyfran is o raglenni lefel mynediad o gymharu â rhaglenni galwedigaethol eraill.

Siart 7.3: Cyfran y dysgwyr ar raglenni galwedigaethol ar ôl 8 wythnos yn ôl difreintiedigaeth cymdogaeth y cartref, 2018/19



8. Darparwyr


Gellid disgwyl y byddai gan golegau ac ysgolion wahaniaethau yn eu mesurau cyflawni. Ymhlith y ffactorau a allai effeithio ar y mesurau mae'r canlynol:

- Gall ysgolion a cholegau ddenu dysgwyr sydd â chefnidiroedd gwahanol, profiad o addysg, a chyrhaeddiad blaenorol
- Mae'r chweched dosbarth mewn ysgolion yn cyflawni cymwysterau Lefel 3 (Safon Uwch a chyfwerth), mae colegau'n darparu cymwysterau o Lefel Mynediad i Lefel 4 ac uwch
- Prin yw'r ysgolion sy'n cyflwyno rhaglenni galwedigaethol a lle maent yn gwneud hynny, mae'n aml yn gyfran fach o'r dysgwyr ôl-16 yn yr ysgol honno
- Mae addysg ôl-16 yn cael ei chyflwyno mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol ardaloedd, gyda gwahanol gymysgedd o chweched dosbarth a cholegau
- Mae gan ddarparwyr ofynion mynediad gwahanol ar gyfer rhaglenni
- Mae gan ysgolion a cholegau ddulliau casglu data ar wahân a gall hyn gael effaith fach ar y broses o gyfrifo rhai mesurau

Gan nad oes llawer o ysgolion yn cyflwyno rhaglenni galwedigaethol, caiff eu mesurau cyflawniad galwedigaethol eu heffeithio'n fawr gan arferion ychydig o ysgolion.

Yn 2018/19, roedd llawer o'r dysgwyr a oedd yn dysgu Saesneg fel ail iaith yn dysgu rhai TGAU fel rhan o'u rhaglen alwedigaethol yn yr ysgol, ond ni wnaeth eu Saesneg ddatblygu digon i gwblhau'r arholiad. Roedd y dysgwyr hyn yn cyfrif am gyfran fawr o'r holl ddysgwyr galwedigaethol mewn ysgolion a chawsant effaith fawr ar y gyfradd llwyddiant galwedigaethol ar gyfer ysgolion.


Siart 8.1: Mesurau cyflawniad ar gyfer ysgolion a cholegau, 2018/19



Roedd gan ysgolion gyfraddau cyflawniad uwch ar gyfer rhaglenni addysg gyffredinol. Cyflawnodd 67% o'r dysgwyr dair Safon Uwch neu gyfwerth mewn ysgolion, o gymharu â 59% o ddysgwyr mewn colegau. Roedd gan golegau gyfraddau llwyddo uwch ar gyfer rhaglenni galwedigaethol.

Effeithiwyd yn arbennig ar gyfradd lwyddo'r ysgolion ar gyfer rhaglenni galwedigaethol gan y ffordd y cafodd y rhaglenni eu strwythuro ar gyfer rhai dysgwyr a oedd yn dysgu Saesneg. Mae'n bwysig cofio, er ei fod yn effeithio ar y mesurau, efallai nad yw hyn yn ganlyniad negyddol i'r dysgwr os mai ei brif nod oedd gwella ei Saesneg.


Siart 8.2: Mesurau cyflawniad addysg gyffredinol un flwyddyn, ar gyfer ysgolion a cholegau, 2018/19



Roedd y gwahaniaeth mewn cyflawniad i ysgolion a cholegau mewn rhaglenni addysg gyffredinol oherwydd nifer y dysgwyr mewn colegau nad oeddent yn parhau i'w blwyddyn A2. Roedd bwlch o 9 pwynt canran yn y gyfradd gadw rhwng colegau ac ysgolion.

Roedd gan ddysgwyr a gychwynnodd raglen A2 yr un lefel o lwyddiant mewn ysgolion a cholegau. Roedd canran y dysgwyr A2 sy'n cael o leiaf dri C mewn gwirionedd yn uwch mewn colegau, ond mae canran y dysgwyr sy'n cael tri A* neu A yn dal i fod yn uwch mewn ysgolion.


Siart 8.3: Cyfraddau llwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn ôl lefel rhaglen, ar gyfer ysgolion a cholegau, 2018/19 (a)



a) Lefel 1 a Mynediad i Addysg Uwch heb eu cynnwys oherwydd materion datgelu

Roedd cyfraddau llwyddo mewn ysgolion ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yn is o lawer na cholegau. Roedd rhywfaint o hyn o ganlyniad i'r ffordd yr oedd rhai ysgolion yn strwythuro'u rhaglenni galwedigaethol. Roedd y cyfraddau llwyddiant isaf ar gyfer ysgolion ar gyfer rhaglenni Lefel Mynediad a Lefel 2 - roedd y rhaglenni ar gyfer pobl sy'n dysgu Saesneg yn effeithio ar y rhain. Fodd bynnag, roedd y gyfradd llwyddo ar gyfer rhaglenni galwedigaethol Lefel 3 yn parhau i fod 25 pwynt canran yn is i ysgolion na cholegau.

Siart 8.4: Cyfradd gadael yn gynnar dysgwyr addysg gyffredinol o'i gymharu â chyflawni tair safon uwch, yn ôl darparwr, 2018/19



Roedd perthynas wan ond ystadegol arwyddocaol rhwng cyfraddau gadael yn gynnar a chyflawniad. Roedd darparwyr lle roedd mwy o ddysgwyr yn gadael yn gynnar ychydig yn fwy tebygol hefyd o fod â chyfraddau cyflawniad is ymhlith y dysgwyr nad oeddent yn gadael.

Mae'r cyfernod cydberthyniad yn 0.17, lle byddai 0 yn golygu nad oes cydberthynas a-1 yn golygu cydberthyniad 1 i 1 negyddol cyflawn.

Nid yw dysgwyr sy'n gadael yn gynnar yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiadau ar gyfer y mesurau cyflawniad. Mae hyn er mwyn cydnabod y dylai dysgwyr gael amser i benderfynu a yw rhaglen yn iawn iddyn nhw.

Geirfa

Blwyddyn academiaidd

Ar gyfer ysgolion, mae'r flwyddyn academiaidd rhwng 1 Medi a 31 Awst. Ar gyfer colegau, mae'r flwyddyn academiaidd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

Colegau ac ysgolion

Yn y datganiad hwn, mae 'colegau' yn golygu sefydliadau addysg bellach, a elwir yn SABau hefyd. Mae rhai sefydliadau addysg bellach yn grŵp o sawl coleg. Mae 'ysgolion' yn cyfeirio at chweched dosbarth mewn ysgolion a gynhelir.

Diffinnir Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant fel coleg. Mae Coleg Cymunedol y Dderwen yn chweched dosbarth mewn ysgol.

Gadael yn gynnar

Diffinnir dysgwyr fel pobl sy'n gadael yn gynnar os:

- ydynt yn gadael eu rhaglen o fewn 8 wythnos i'w dyddiad cychwyn,
- ac nad ydynt wedi cwblhau'r rhaglen honno,
- a bod gan y rhaglen hyd disgwylidig o 24 wythnos neu ragor.

Caiff y rhai sy'n gadael yn gynnar eu heithrio o gyfrifiadau dilynol.

Lefelau cymhwyster

Mae lefelau cymhwyster yn amrywio o lefel mynediad i lefel 8.

Mae cymhwyster lefel 1 yn cyfateb i TGAU D - G, mae cymhwyster lefel 2 yn cyfateb i TGAU A* - C, ac mae cymhwyster lefel 3 yn cyfateb i AS neu Safon Uwch.

Mae gan y canllaw dysgwyr y Fframwaith Credydau a Chymwysterau ddiagram yn amlinellu lefelau'r gwahanol gymwysterau.

Rhaglen

Mae rhaglen yn gasgliad o weithgareddau dysgu y bydd dysgwr yn eu hastudio. Er enghraifft, byddai rhaglen addysg gyffredinol arferol yn golygu astudio 3 lefel AS a Bagloriaeth Cymru.

Mae 'Gwaith Coed a Saernïaeth yn enghraifft o raglen alwedigaethol Lefel 1', sy'n golygu astudio 'Diploma mewn Gwaith Coed a Saernïaeth' fel y prif gymhwyster, ynghyd ag unrhyw gymwysterau ategol, fel mathemateg cyn TGAU.

Nodiadau

Cyhoeddir tablau ochr yn ochr â'r datganiad hwn sy'n cynnwys yr holl ddata a gyflwynir yma.

Dyma'r prif ffynonellau data a ddefnyddir yn y datganiad hwn:

- Casgliad Data ôl-16: bob mis Hydref, mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir sydd â chweched dosbarth a phob ysgol ganol sydd â disgyblion ym mlynnyddoedd 12,13 a 14, adrodd ar yr holl raglenni dysgu a gweithgareddau a wneir gan ddisgyblion yn y flwyddyn academaidd flaenorol.
- Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR): mae'n cynnwys data ar addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion. Fe'i cesglir ar sail 'dreigl' gydol y flwyddyn ac mae ystadegau'n cael eu rhewi'n rheolaidd. Dyma'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer ystadegau ar ddysgwyr mewn sefydliadau (colegau) addysg bellach yng Nghymru.
- Cronfa Ddata Arholiadau Cymru (WED): mae'n cynnwys data ar niferoedd sy'n sefyll arholiadau a'r canlyniadau wedi'u casglu o nifer o sefydliadau dyfarnu.

Mae'r holl ddata ar gyfer sefydliadau addysg bellach yn dod o LLWR. Ar gyfer ysgolion, mae data dysgwyr yn dod o ddata ôl-16 a gasglwyd, a daw data ar gyrhaeddiad cymwysterau o baru dysgwyr i WED.

Rhaglenni Addysg Cyffredinol

Dysgwyr llawn amser sydd wedi cofrestru ar raglenni dysgu lefel AS yn y flwyddyn academaidd flaenorol yw'r cohort sylfaenol ar gyfer mesurau cyffredinol ar gyfer rhaglenni addysg. Yna mae'r dysgwyr sydd wedi cwblhau eu rhaglenni AS yn cael eu paru â dysgwyr sy'n cychwyn rhaglen A2 yn y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae cyflawniad y dysgwr dros y ddwy flynedd lawn yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo a yw'r dysgwr wedi ennill 3 Safon Uwch (neu gyfatebol) ar raddau penodol.

Dim ond y cymwysterau hynny a gymeradwyir neu a ddynodir i'w defnyddio yng Nghymru mae'r mesurau cyflawniad yn eu cynnwys. Diystyir arholiad pan fo dysgwr yn ennill gradd uwch neu gymhwyster lefel uwch yn yr un grŵp pwnc. Os diystyir cymhwyster, yna nid yw'n cyfrif tuag at yr ystadegau a gyhoeddir yn y datganiad hwn. Mae cymwysterau cymharol o ran maint a gwerth i Safon Uwch yn cael eu cynnwys yn y mesur cyffredinol ar gyfer cyflawniad addysg. Mae hyn yn cynnwys diplomâu atodol BTEC a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru), er enghraifft.

Rhaglenni Galwedigaethol

Y cohort sylfaenol ar gyfer rhaglenni galwedigaethol yw dysgwyr llawn amser ar raglenni galwedigaethol a ddaeth i ben yn y flwyddyn academaidd gyfredol. Mae hyn er mwyn ystyried hyd amrywiol rhaglenni galwedigaethol.

Mae dysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Iau a Sgiliau Dysgwyr Annibynnol yn cael eu heithrio.

Mae darparwyr yn adrodd pa gymwysterau mewn rhaglen dysgwr sy'n cael eu hystyried i fod yn brif gymwysterau. Gall hyn fod yn wahanol yn dibynnu ar y dysgwr. Dim ond cymwysterau Mynediad i Addysg Uwch a chymwysterau a gymeradwyir neu a ddynodir i'w defnyddio yng Nghymru mae'r mesur yn eu cynnwys.

Yna mae'r gyfradd llwyddiant yn cael ei chyfrifo fel nifer y prif gymwysterau a enillwyd, wedi'i rhannu yn ôl nifer y prif gymwysterau a wnaed. Mae'n bosibl i ddysgwr gael nifer o brif gymwysterau mewn un rhaglen. Caiff Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru) ei chynnwys.

Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru) Lefel 3

Y cohort sylfaenol yw dysgwyr sy'n dechrau Bagloriaeth Cymru Lefel 3 yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Yna mae'r dysgwyr yn cael eu paru ag ail ran Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau yn naill ai'r flwyddyn academaidd gyfredol neu flaenorol.

Cwmpas y data

Dysgwyr sy'n gwneud rhaglenni dysgu lluosog gyda'r un darparwr

Pan fo dysgwr yn gwneud mwy nag un rhaglen addysg gyffredinol neu alwedigaethol gyda'r un darparwr yn ystod blwyddyn academaidd, y rhaglen ddysgu a wnaed yn fwyaf diweddar sy'n cael ei chyfrif yn y mesurau perfformiad (er enghraifft newid o raglen o bedwar lefel AS i raglen o dri lefel AS). Os yw dysgwr yn gwneud rhaglen alwedigaethol a rhaglen addysg gyffredinol yn yr un flwyddyn, yna bydd y dysgwr hwnnw'n ymddangos yn y naill fesur a'r llall.

Dysgwyr sy'n trosglwyddo rhwng darparwyr

Os yw dysgwr yn cofrestru ar raglen ddysgu ac yna'n tynnu'n ôl/trosglwyddo o'r rhaglen honno ac yna'n dechrau dysgu gyda darparwr gwahanol, bydd y ddwy raglen ddysgu'n cyfrif tuag at y mesurau perfformiad.

Talgrynnu

Mae'r holl ffigurau'n cael eu talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae niferoedd llai na 5 wedi'u dal yn ôl. Caiff canrannau eu talgrynnu i'r cyfanrif agosaf. Caiff canrannau sy'n seiliedig ar enwadur o lai na 23 eu hatal.

Caiff y gwahaniaethau rhwng gwerthoedd eu cyfrifo gan ddefnyddio gwerthoedd heb eu talgrynnu, felly efallai bod yna fân anghysondebau wrth eu cymharu â'r ffigurau wedi'u talgrynnu.

Statws ystadegau arbrofol

Dyma'r drydedd flwyddyn i'r ystadegau hyn gael eu cyhoeddi fel ystadegau arbrofol. Mae'r statws yn adlewyrchu'r datblygiadau parhaus i'r fethodoleg ac ansawdd y data.

Eleni cafodd ysgolion eu cynnwys yn y mesur ar gyfer rhaglenni galwedigaethol am y tro cyntaf. I wneud hynny, roedd yn ofynnol paru cymwysterau yn y data ôl-16 a gasglwyd â WED. Fodd bynnag, nid yw'r broses yn syml oherwydd y gwahaniaeth yng nghodau'r cymwysterau a adroddwyd gan ysgolion yn y data ôl-16 a gasglwyd ac a adroddwyd gan gyrff dyfarnu drwy WED. Mae angen i ni fonitro ansawdd ac effaith y data ysgolion ar y mesur hwn.

Mae yna rywffaint o broblemau yn parhau gydag ansawdd data, yn enwedig gyda'r data ôl-16 a gasglwyd. Rydym yn cydweithio ag ysgolion er mwyn dysgu'r arferion gorau ar gyfer cyflwyno data ôl-16 a helpu i wella ansawdd y data a gyflwynir.

Rydym wedi derbyn adborth gan ddarparwyr ar y ffordd rydym yn trin trosglwyddiadau a phrif gymwysterau yn y fethodoleg. Rydym yn bwriadu ymchwilio i'r mater a gwneud penderfyniad y flwyddyn nesaf.

Pan fydd y materion hyn yn cael eu datrys, byddwn yn ystyried diddymu'r statws ystadegau arbrofol a gweithio tuag at asesiad Ystadegau Cenedlaethol.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gellir rhoi adborth drwy anfon e-bost at ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

Nodweddion gwarchodedig

Mae'r datganiad yn cynnwys ystadegau ar rywedd, oedran ac amddifadedd y gymdogaeth ble mae aelwyd y dysgwr (LSOA) yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Yn y dyfodol, rydym yn gobeithio cyhoeddi ystadegau ar y nodweddion gwarchodedig eraill, lle mae data'n bodoli. Mae yna heriau wrth lunio'r ystadegau hyn oherwydd y gwahaniaethau yn y ffordd mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar draws y ffynonellau data amrywiol ar gyfer ysgolion a cholegau.

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum dimensiwn ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb a Chydlyniaeth.

Perthnasedd

Defnyddir y mesurau a nodir yn y cyhoeddiad hwn:

- gan Lywodraeth Cymru er mwyn monitro perfformiad darparwyr ac fel gwybodaeth sylfaenol er mwyn gosod targedau ar gyfer gwelliannau fel rhan o'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16;
- gan Estyn, er mwyn llywio dyfarniadau arolygu ar safonau; a
- gan ddarparwyr eu hunain, fel adnodd rheoli i fesur eu perfformiad eu hunain ac er mwyn meincnodi eu hunain yn erbyn cyfartaleddau'r sector, fel rhan o'u cylch hunanasesu.

Defnyddir y mesurau yn Llywodraeth Cymru ac oddi allan iddi hefyd er mwyn monitro tueddiadau addysgol ac fel sylfaen ar gyfer dadansoddi y data gwaelodol ymhellach. Rhai o'r prif ddefnyddwyr yw:

- gweinidogion a swyddogion yn Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad ac ymchwilwyr yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- adrannau eraill y llywodraeth;
- awdurdodau lleol a chonsortia addysg rhanbarthol;
- myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion;
- ysgolion a sefydliadau addysg bellach;
- dinasyddion, cwmnïau preifat, a'r cyfryngau.

Cywirdeb

Mae'r ffigurau yn y datganiad hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa derfynol ym mlwyddyn academiaidd 2018/19. O bryd i'w gilydd, gall diwygiadau gael eu gwneud oherwydd gwallau yn ein prosesau ystadegol neu pan fo cyflenwr data yn hysbysu Llywodraeth Cymru eu bod wedi cyflwyno gwybodaeth anghywir. Yn yr achosion hyn, penderfynir a yw'r newid yn ddigon sylweddol i gyhoeddi datganiad ystadegol diwygiedig. Pan ystyrir nad yw newidiadau'n ddigon sylweddol, bydd ffigurau'n cael eu cywiro os ydynt yn ymddangos mewn datganiadau yn y dyfodol.

Yn 2018/19 adroddodd rhai ysgolion bod dysgwyr yn astudio Bagloriaeth Cymru neu'r Dystysgrif Her Sgiliau, ond nid y ddwy. Ni ellir dilyn Bagloriaeth Cymru a Thystysgrif Her Sgiliau ar wahân, felly yn y mesurau tybiwyd bod dysgwyr a oedd wedi astudio un wedi astudio'r llall. Os oedd Bagloriaeth Cymru'n cael ei chwblhau, tybiwyd bod y Dystysgrif Her Sgiliau wedi'i chwblhau oherwydd ei bod yn elfen angenrheidiol o Bagloriaeth Cymru. Os oedd y cofnod Bagloriaeth Cymru ar goll, tybiwyd bod y dysgwr wedi tynnu'n ôl o'r cwrs.

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae'r data yn y datganiad hwn yn cyfeirio at flwyddyn academiaidd 2018/19 sy'n dod i ben ym mis Gorffennaf / Awst 2019. Mae data LLWR yn mynd drwy broses gysoni rhwng mis Awst a mis Rhagfyr wedi i'r flwyddyn academiaidd ddod i ben. Cafodd data LLWR ei 'rewi' am y tro olaf ym mis Rhagfyr 2019. Cwblhawyd y broses o gasglu data ôl-16 ym mis Rhagfyr 2019 hefyd.

Hygyrchedd ac eglurder

Mae'r datganiad ystadegol hwn yn cael eu rag-gyhoeddi ac yna'i gyhoeddi ar adran Ystadegau ac Ymchwil Gwefan Llywodraeth Cymru..

Cyhoeddir y datganiad mewn fformat PDF (PDF/A) hygyrch, ochr yn ochr â thaenlen sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS).

Cymaroldeb a chydlyniaeth

Nid ydym yn eich cynghori i gymharu 2016/17 â blynyddoedd diweddarach, oherwydd cafodd nifer o ddarparwyr eu heithrio yn y flwyddyn gyntaf oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd data. Mae ansawdd y data wedi gwella ers hynny, ac mae pob darparwr ôl-16 wedi'u cynnwys ar gyfer 2017/18 a 2018/19. Gellir cymharu'r ddwy flwyddyn hyn, gan mai mân iawn fu'r newidiadau mewn methodoleg.

Cafodd Sgiliau Byw'n Annibynnol eu heithrio yn y mesurau o raglenni galwedigaethol Lefel Mynediad yn 2018/19.

Mae'r ystadegau hyn yn rhan o gyfres o fesurau cyson. Mae'r mesurau eraill yn Werth Ychwanegol, a Chyrchfannau. Gyda'i gilydd, maen nhw'n dangos darlun mwy cyflawn o ganlyniadau dysgwyr.

Mae cohort a methodoleg sylfaenol y mesurau cyflawniad cyson yn wahanol i fesurau perfformiad blaenorol, ac ni ellir eu cymharu.

Mae gan ddatganiad ystadegol ar Ganlyniadau Arholiadau Llywodraeth Cymru ystadegau ar ganlyniadau Safon Uwch ar gyfer pobl ifanc 17 oed mewn ysgolion. Ni ellir cymharu'r rhain â'r mesurau cyflawniad hyn oherwydd:

- mae canlyniadau'r arholiadau yn fesurau blwyddyn, tra mae'r mesurau cyflawniad yn fesurau dwy flynedd yn ystyried cynnydd dysgwyr o'u rhaglen AS.
- mae canlyniadau'r arholiadau'n adrodd ar bobl ifanc 17 oed, tra mae'r adroddiad ar fesurau cyflawniad yn adrodd ar ddysgwyr o bob oedran mewn addysg ôl-16
- dim ond ar ysgolion mae'r canlyniadau arholiadau yn adrodd, tra mae'r mesurau cyflawniad yn adrodd ar ddysgwyr mewn ysgolion ac mewn sefydliadau addysg bellach.

Roedd canlyniadau dysgwyr ar gyfer dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn arfer cynnwys ystadegau ar ganlyniadau dysgwyr ar gyfer addysg bellach mewn sefydliadau addysg bellach. Ni ellir cymharu'r ystadegau â'r mesurau cyflawniad, ond maen nhw'n darparu cyfres amser ar gyfer canlyniadau dysgwyr blaenorol mewn sefydliadau addysg bellach.

Cyhoeddodd yr Adran Addysg ganllawiau ar gyfer ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol ar y mesurau 16-18 newydd yn ogystal ag ystadegau ar fesurau llwyddiant sy'n seiliedig ar ganlyniadau ym maes addysg bellach sy'n cwmpasu'r cyrchfannau (i gyflogaeth a dysgu), enillion a chynnydd dysgwyr.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Bydd y rhain yn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach ac sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) y Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu defnyddio at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 dangosydd cenedlaethol gerbron y Cynulliad ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â'r naratif ar gyfer pob nod llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru..

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol hefyd a gallai'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu defnyddio mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r ddogfen a'r tablau ategol ar gael yma: <https://llyw.cymru/mesurau-perfformiad-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-cyflawniad-gwerth-ychwanegol>

Mae gwybodaeth gefndir am fesurau cyson ôl-16 ar gael ar wefan Hwb.

Diweddariad Nesaf

Yn gynnar yn 2021.

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth ar unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn a gellir ei anfon drwy e-bost at: ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael dan Open Government Licence v3.0, ac eithrio lle nodir yn wahanol.

